

---

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 26 MAWRTH 2021

---

## Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Derek Butler (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Andy Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) ac Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L. Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), Rhys Horan (Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru), Anita Davies (Rheolwr Prosiect Cyllid Ewropeaidd – Gweledigaeth Twf), Erin Thomas (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## **1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cyngorydd Ian B.Roberts a Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Yana Williams (Coleg Cambria), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd)

## **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## **3. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi.

## **4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2021 fel rhai cywir.

## **5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2021/22**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd L.Edwards (Swyddog Statudol Statudol – Awdurdod Lletya) a Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau).

## **PENDERFYNWYD**

- (1) Cymeradwyo Cyllideb Refeniw 2021/22 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiadau unwaith ac am byth o £415,000 yn y gyllideb refeniw i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir.
- (2) Cymeradwyo Cyllideb Gyfalaf 2021/22 hyd 2025/26 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.
- (3) Cyllido'r Adolygiadau Porth (Sicrwydd) ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.
- (4) Gofyn yn ffurfiol i bob un o'r chwe awdurdod lleol gydweithredu wrth ddefnyddio eu hyblygrwydd ariannu i ryddhau cyllid refeniw i'r Bwrdd Uchelgais. Golyga hyn gyfnewid y cyllid sydd wedi'i ddynodi i'r Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf a sicrhau bod cyllid refeniw o werth cyfartal ar gael i'r Cynllun Twf i ariannu eu heitemau math refeniw.
- (5) Gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio adolygu costau'r prosiectau yn ystod y flwyddyn wrth i ragor o wybodaeth ddod i law, ymhellach i'r costau nas ragwelwyd sydd bellach wedi'u hadnabod yn y gyllideb refeniw. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yr opsiwn o ariannu rhan o'r gwariant hwn o gyllideb gyfalaf y prosiect unigol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- (1) Gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.
- (2) Gosod y gyllideb arfaethedig fesul prosiect a'r ariannu cyfalaf cyfatebol ar gyfer 2021/22 hyd 2025/26.
- (3) Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.
- (4) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2021/22 ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Manylodd Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya ar y newidiadau a'r sefyllfaoedd annisgwyl oedd wedi codi ers i'r Bwrdd drafod y gyllideb ddiwethaf, ac oedd wedi gyrru cyfran helaeth o'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, sef:-

- Y costau sylweddol annisgwyl untro ynghlwm â datblygu achosion busnes.
- Costau'r gefnogaeth gyfreithiol i'r achosion busnes hynny.

Eglurodd:-

- Bod arian digonol yn y cronfeydd wrth gefn i weithredu hyn, ond y ceisid adeiladu'r gronfa wrth gefn, yn hytrach na'i defnyddio ar y dechrau.
- Bod y Cyfarwyddwr Portffolio, y Rheolwr Gweithrediadau a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya wedi'u herio ar y ffigyrau, a bod yr amcangyfrifon o'r costau untro ychwanegol yn rhai bras ar hyn o bryd.

Nododd ymhellach:-

- Gan i'r rhandaliad cyntaf o £16m o'r grant Cynllun Twf gael ei dderbyn ar 12 Mawrth, 2021, bod cyfraniadau'r partneriaid ar ochr isaf yr amrediad a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Hydref 2020.

- Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU yng Nghyllideb y Canghellor yng nghyswllt cwtogi'r cyfraniad ariannu o 15 mlynedd i 10 mlynedd, byddai'n rhaid ymweld â'r holl sefyllfa ariannol. Daeth newyddion y Canghellor yn annisgwyl i Lywodraeth Cymru hefyd, ac nid oedd yn glir eto a oedd Llywodraeth Cymru hefyd am gwtogi'r cyfraniad ariannu i gyd-fynd ag amseru Llywodraeth y DU, na beth fyddai'r ymhlygiadau i oes y cynnyrch treth perthnasol.
- Bod y proffil gwariant cyfalaf wedi llithro rhywfaint hefyd, a byddai'n rhaid asesu'r holl faterion hyn i'r dyfodol.
- Bod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn bresennol yn balansio. Erbyn dod â chyllideb 2022/23 gerbron y Bwrdd ymhen blwyddyn, o bosib' y byddai yna newidiadau pellach, a byddai'n rhaid edrych ar yr holl gostau a'r grantiau yn eu cyfanrwydd eto yn ystod y flwyddyn. Bwriedid rhoi sylw i hynny dros yr haf, gan roi rhybudd digonol i bob partner o'u cyfraniadau eto erbyn y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd, pe na fyddai cynllun yn mynd rhagddo, y byddai'n rhaid mynd yn ôl at y ddwy Lywodraeth i sicrhau bod unrhyw brosiect newydd fyddai'n dod gerbron y Bwrdd yn dal i ymateb i ofynion y Llywodraethau ar gyfer y buddsoddiadau.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod y gorbenion yn dechrau mynd dros 10% o'r gwariant blynyddol, a phwysleisiwyd yr angen i gadw golwg ar y sefyllfa.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd, er gwaethaf y newidiadau i'r proffil gwariant, ac ati, bod gofyn o hyd i'r partneriaid dalu'r cyfraniadau a osodwyd allan yn y gyllideb yn y flwyddyn bresennol.
- Mewn ymateb i sylw ei bod yn ymddangos bod popeth wedi'i seilio ar ragdybiaethau, ac nad oedd y rhagolygon ariannol yn gredadwy, eglurwyd bod rhaid gwneud y gorau gyda'r wybodaeth oedd ar gael ar hyn o bryd. Gellid ymdopi am y flwyddyn gyfredol o fewn yr adnoddau oedd ar gael, ond byddai'n rhaid ail-asesu'r sefyllfa ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Nodwyd bod angen i'r Bwrdd arddangos parodrwydd i fod yn hyblyg, yn wyneb y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i'w reolaeth gan y ddwy Lywodraeth.
- Diolchwyd i swyddogion cyllid statudol y chwe awdurdod lleol am gytuno mewn egwyddor i gytundeb ar gyfnewid y cyllid cyfalaf / refeniw dros holl gyfnod y Cynllun Twf, fel bod modd defnyddio grant cyfalaf y Bwrdd Uchelgais fel arian refeniw.

## 6. DATGANIAD SEFYLLFA AR NEWID HINSAWDD AC ECOLEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf).

### PENDERFYNWYD

(1) **Mabwysiadu'r datganiad sefyllfa arfaethedig yn adran 5.1 o'r adroddiad ar sut y bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn cyflawni yn erbyn dyheadau rhanbarthol a dyheadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar newid hinsawdd ac ecolegol, gyda'r addasiadau a ganlyn:-**

- **Diwygio'r ail bwynt bwled i ddarllen "*cyflawni o leiaf 40% yn llai o garbon corfforedig*".**
- **Diwygio'r trydydd pwynt bwled i ddarllen "*cyflawni o leiaf 10% o fudd net ar gyfer bioamrywiaeth*".**
- **Dileu'r frawddeg ddiwethaf, sef "*Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni'r datrysiad fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect*".**

- (2) **Nodi y bydd gofyn i holl brosiectau'r Cynllun Twf amlinellu i ba raddau y byddant yn cyflawni yn erbyn y datganiad sefyllfa ac unrhyw fesurau lliniaru perthnasol fel rhan o broses gymeradwyo'r achos busnes.**
- (3) **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio bennu'r modd gweithredu a mesur priodol ar draws y portffolio a nodi y bydd angen comisiynu arbenigedd allanol i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio.**

## **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Heb ddatganiad sefyllfa clir gan y Bwrdd ar newid hinsawdd ac ecolegol, gellid colli cyfleoedd i siapio achosion busnes y prosiectau. Gallai hyn arwain yn anfwriadol at brosiectau'r Cynllun Twf yn cynyddu allyriadau carbon rhanbarthol a cholli bioamrywiaeth.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn cyflwyno datganiad sefyllfa arfaethedig ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ymwneud â newid hinsawdd ac ecolegol.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mynegwyd pryder gan rai aelodau nad oedd y datganiad sefyllfa arfaethedig yn mynd yn ddigon pell, a bod angen tynhau ar y geiriad, e.e. dylid nodi '*bydd holl brosiectau'r Cynllun Twf yn ...*', yn hytrach na '*bydd holl brosiectau'r Cynllun Twf yn anelu i ...*', ayb.
- Pwysleisiwyd y dylai'r Bwrdd Uchelgais arwain ar draws y Gogledd ar leihau ôl troed carbon, ac awgrymwyd y dylai holl brosiectau'r Cynllun Twf gyflawni 50% yn llai o garbon corfforedig (yn hytrach na 40%, fel y nodwyd yn y datganiad sefyllfa arfaethedig) a chyflawni budd net o 20% ar gyfer bioamrywiaeth (yn hytrach na'r 10% a nodwyd yn y datganiad). Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd Cymru wedi sefydlu targed budd net ar gyfer bioamrywiaeth, ond roedd yn cydnabod nad oedd y sefyllfa bresennol yn gefnogol i iechyd ecosystemau, a bod angen bod yn fwy uchelgeisiol. Yn absenoldeb targed ar gyfer Cymru, dilynwyd arweiniad DEFRA, oedd wedi ymgynghori'n helaeth dros gyfnod o fisoedd lawer yn Lloegr cyn sefydlu'r budd net o 10%. Nodwyd ymhellach bod y targed ar gyfer carbon corfforedig yn uchelgeisiol, ac y byddai'n bosib' tynhau'r geiriad, mae'n debyg. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod y datganiad yn nodi y byddai prosiectau'n cael eu hannog i gyflawni'n uwch na'r dyheadau hyn, ond roedd yn rhaid i'r geiriad hefyd gydnabod yr amrediad aeddfedrwydd o fewn y portffolio, a darparu asesiad realistig o hynny.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd naill ai wedi datgan argyfwng hinsawdd, neu wedi gwneud ymrwymadau i fod yn garbon niwtral erbyn 2030, a chytunodd y Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf i anfon y wybodaeth ynglŷn â'r ymrwymadau at Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Cytunwyd bod rhaid cael dyhead, ond pwysleisiwyd hefyd bod angen bod yn wylidwrus o ran tynhau'r geiriad, rhag gyrru datblygwyr o Gogledd Cymru i ranbarthau eraill lle nad yw'r gofynion mor llym.
- Nodwyd bod yna lawer o ansicrwydd o gwmpas gwaelodlinau, ac ati, ac nad mater hawdd oedd gwneud y cyfrifiadau hyn. Nodwyd y gallai'r arbenigedd ym Mhrifysgol Bangor gefnogi'r broses. Awgrymwyd y dylai'r Bwrdd wneud yr hyn sy'n bosib' ar hyn o bryd, gan edrych ar godi'r safonau hynny yn y dyfodol, pan fydd y dechnoleg, ac ati, wedi datblygu ymhellach.

- Nodwyd bod rhaid bod yn ymarferol, a bod peryg' mewn gwneud gormod o addewidion. Fodd bynnag, roedd yna gyfleoedd ar gael, e.e. mentrau hydrogen glas, o bosib'.
- Pwysleisiwyd y dylai'r Bwrdd Uchelgais fod yn fwy uchelgeisiol nag sy'n gyfforddus, er mwyn gyrru'r newid y dymunir ei weld. Nid oedd yr economi a'r amgylchedd yn annibynnol o'i gilydd, a byddai'r economi yn cael ei gyrru gan y newidiadau sy'n cael eu gyrru gan y Bwrdd yn nhermau'r amgylchedd.
- Mynegwyd y farn bod y datganiad yn llawn dyhead, a'i fod yn rhoi arweiniad clir i'r gymuned fusnes.
- Awgrymwyd bod y datganiad yn addas ar gyfer lle rydym wedi gyrraedd ar hyn o bryd, ond y dymunir i'r Bwrdd ei adolygu ymhen 12 mis i weld sut effaith mae'n gael, ac i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion busnesau o safbwynt caniatáu amser digonol i'r sector breifat, yn arbennig, i gynllunio tuag at hyn.
- Croesawyd y gwaith, a chefnogwyd y polisi a'r fframwaith oedd yn cael ei roi ymlaen. Fodd bynnag, mynegwyd pryder y gallai'r polisi gael ei orfodi yn hwyr yn y dydd ar rai prosiectau oedd yn eithaf aeddfed yn barod. Mewn ymateb, nodwyd bod yna oblygiadau, ond bod rhaid bod yn uchelgeisiol, ac yn briodol hefyd o ran beth fyddai goblygiadau costau ychwanegol yn erbyn y gyllideb a osodwyd, gan gymryd i ystyriaeth hefyd bod angen ail-edrych ar hyn yn gyson er mwyn sicrhau bod y cynlluniau a'r dyheadau yn briodol i'r cyfnod. Ni ddymunir cytuno'n awr i unrhyw sefyllfa na fyddai'r holl bartneriaid yn gallu ymrwmo iddo, felly roedd angen i'r dyhead fod yn briodol i bawb, ond yn rhywbeth y gellid ei ystyried ymhellach ymlaen er mwyn codi'r uchelgais.
- Awgrymwyd nad oedd pwrpas i frawddeg olaf y datganiad sefyllfa, sef '*Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni'r datrysiaid fforddiadwy gorau ar gyfer pob prosiect*', gan y byddai datblygwyr yn awyddus i wneud cymaint o elw â phosib'.
- Nodwyd bod y Bwrdd mewn sefyllfa o gryn anwybodaeth ar hyn o bryd, ac ar siwrne o ddysgu. Nid oedd yn glir sut y gellid cyflawni budd net o 10% ar gyfer bioamrywiaeth, a chredid nad oedd gan y Bwrdd sail wyddonol ffeithiol ar hyn o bryd i ddweud nad oedd y targed o 10% yn ddigonol. Gwastraff fyddai cefnogi targed uwch, gan wybod na fyddem yn ei gyrraedd. Efallai y byddai gwybodaeth ar gael ymhen 2 flynedd, ac y gellid edrych ymhellach ar y ffigwr ar yr adeg hynny.
- Pwysleisiwyd y dylai'r Bwrdd fod yn arwain, yn hytrach nag yn dilyn, ar hyn. Credid bod DEFRA wedi sefydlu'r ffigwr budd net anghywir, a bod gennym gyfle yma i gynyddu'r manau gwyrdd a gwella bioamrywiaeth o fewn ein datblygiadau newydd. Mewn ymateb, nodwyd na ellid tanbwysleisio'r her. Roedd angen arbenigedd ychwanegol i ddeall y mesurau i'w defnyddio i asesu'r waelodlin. Eglurwyd bod y prosesau rheoleiddio cyfredol, mewn rhai achosion, yn arwain at raddfa effeithiolrwydd ail-sefydlu bioamrywiaeth ar ôl datblygu o 6-20%, ac roedd polisi cynllunio yn dweud bod angen i ni wneud yn well, ac roedd yr uchelgais yn sylweddol. Nid oeddem yn glir o ran sut i wneud hynny, ac felly roedd angen cyngor ychwanegol ar hynny. Roedd ail ran y datganiad yn nodi y dymunir gweld prosiectau'n cyflawni'n uwch na'r dyheadau hyn. Nid oedd unrhyw beth yn atal prosiectau Wrecsam rhag cyflawni hyn, ac edrychid ymlaen at gydweithio gyda Glyndŵr i wneud hynny.
- Mewn ymateb i gwestiwn, awgrymwyd y gallai'r Bwrdd adolygu'r datganiad cyn pen 12 mis, ar ôl cael cefnogaeth ychwanegol a chyngor technegol.
- Nodwyd y byddai dal yn ôl rhag sefydlu targedau yn golygu y byddai'r Bwrdd yn colli cyfleoedd, gan fod rhai prosiectau yn datblygu achosion busnes eisoes, ac yn chwilio am arweiniad ar hyn. Gan hynny, awgrymwyd diwygio ail a thrydydd pwynt bwled y datganiad i gyfeirio at '*o leiaf*' 40% a 10%, er mwyn pwysleisio ein dyhead i fynd ymhellach na hynny.

## 7. STRATEGAETH YNNI GOGLEDD CYMRU DDRAFFT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni) a Rhys Horan (Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru).

#### **PENDERFYNWYD**

- (1) Cadarnhau Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ar ffurf drafft, a chadarnhau cefnogaeth y Bwrdd i ddechrau ar y gwaith paratoadol ar gyfer y cynllun gweithredu.**
- (2) Cytuno i dderbyn adroddiad pellach ar y cynllun gweithredu drafft.**

#### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r strategaeth bresennol yn darparu gweledigaeth lefel-uchel, meysydd blaenoriaeth, gwaith modelu ynni ynghyd â dadansoddiad economaidd fydd yn cyfrannu at ddatblygu'r cynllun gweithredu arfaethedig.

#### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn cyflwyno Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ar ffurf drafft i'w chadarnhau, ennyn cefnogaeth ar gyfer y camau nesaf arfaethedig, ac arddangos bod y Strategaeth yn cyd-fynd â'r ymrwymiad rhanbarthol i her newid hinsawdd.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd y byddai Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel y Bwrdd Uchelgais yn rhan o hyn, a bod pob un o'r partneriaid wedi cyfrannu at y siwrne hyd yma.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau nad oedd hyn yn tynnu oddi ar waith y Bwrdd Uchelgais, oherwydd yr angen i gyflawni ar gynlluniau'r Bid Twf.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod y £15bn o wariant oedd ei angen i gyflawni'r weledigaeth ynni yn gyfuniad o fuddsoddiad sector breifat a chyhoeddus. Nid oedd yn glir eto beth fyddai'r rhaniad, ond roedd hefyd yn cynnwys gwariant gan unigolion, e.e. ar gerbydau trydan, pŷmpiau gwresogi, ac ati.
- Croesawyd y ddogfen, a nodwyd ei bod yn gosod allan yn glir rai o'r materion cyfredol, a'r opsiynau ar gyfer y dyfodol hefyd.
- Croesawyd y cyfeiriad at y cyfraniad y gall morlyn llanw ei wneud, a holwyd a roddid sylw i fanteision ehangach na'r manteision cynhyrchu ynni yn unig. Mewn ymateb, eglurwyd na roddwyd sylw llawn i'r holl fanteision yn y ciplun a roddwyd, ond roedd y manteision economaidd, yn nhermau creu swyddi, ayb, wedi'u hadnabod, ac wedi'u rhannu. Wrth fynd ymlaen, byddai hyn yn bwysig, ond nid oedd y manylder ar gael eto.

#### **8. EGWYDDORION MASNACHOL AR GYFER CYNLLUN TWf GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

#### **PENDERFYNWYD**

- (1) Cytuno ar yr Egwyddorion Masnachol fel y nodir yn adran 5 o'r adroddiad.**
- (2) Nodi y bydd y sail resymegol ar gyfer mabwysiadu safbwynt masnachol penodol wedi'i nodi'n glir law yn llaw ag achosion busnes y prosiectau er mwyn i'r Bwrdd eu hystyried.**

#### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Darparu llwyfan negodi clir ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn cyflwyno cyfres o Egwyddorion Masnachol a fyddai, o'u mabwysiadu, yn cael eu defnyddio gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i negodi cyfleoedd masnachol sy'n ymwneud â phrosiectau'r Cynllun Twf.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod y £100,000 ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol y cyfeiriwyd ato yn eitem 5 uchod yn adlewyrchu'r ffaith y byddai yna waith cytundebol cymhleth, a manwl ar adegau, o gwmpas y cytundebau ariannu'n gyffredinol, a bod y gefnogaeth gyfreithiol allanol y cyfeirir ati ym mharagraff 6.1 o'r adroddiad yn un elfen o hyn. Eglurwyd ymhellach nad oedd y Bwrdd Uchelgais yn ymrwmo i wariant uniongyrchol drwy gymeradwyo'r adroddiad hwn. Er hynny, roedd yna oblygiadau ariannol i hyn, ond yn debygol o fod yn bositif i'r Bwrdd yn nhermau'r gallu i fanteisio ar brosiectau masnachol er mwyn cael rhyw fath o ddychweliad. Fel roedd Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya wedi nodi yn ei sylwadau ar yr adroddiad, nid oedd hynny'n eglur eto, ac roedd angen gwneud mwy o waith er mwyn adnabod y ffordd ymlaen o ran hynny.
- Nodwyd ei bod yn anodd deall hyn i gyd yn iawn nes gweld gwir enghreifftiau, ond bod yr egwyddorion yn ymddangos yn rhai teg.
- Awgrymwyd y gallai Egwyddor Fasnachol 1 fod yn anodd ei diffinio o safbwynt gwahaniaethu rhwng adenillion masnachol o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn ac adenillion masnachol o ganlyniad i rywbeth y byddai corff yn ei wneud beth bynnag. Derbynnid, fodd bynnag, nad oedd y manylder ar gael ar hyn o bryd.

## **9. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – EGWYDDORION CAFFAEL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

### **PENDERFYNWYD**

- (1) **Mabwysiadu'r egwyddorion caffael arfaethedig ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.**
- (2) **Nodi y bydd gofyn i arianwyr y prosiectau ddangos sut y byddant yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn fel rhan o achos busnes y prosiectau.**

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Darparu fframwaith clir i brosiectau gyflawni yn erbyn dyheadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn cyflwyno cyfres o egwyddorion caffael ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd y cefnogid yr egwyddorion, ond wrth eu rhoi ar waith, y dymunid gweld ychydig mwy o amlygrwydd yn cael ei roi i'r egwyddorion hynny sy'n dod â budd i

Ogledd Cymru, megis newid hinsawdd ac ecolegol, cefnogi'r gadwyn gyflenwi leol, gwerth cymdeithasol, sgiliau, swyddi a chyfleoedd, ac ati.

- Mynegwyd gobaith y byddai'r egwyddorion yn cael eu gweithredu'n egnïol, ac yn cael eu hyrwyddo hefyd.
- 

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 y.h. a daeth i ben am 4.50 y.h.

---

**CADEIRYDD**